

Cofio'r gorffennol a'r presennol ar Sul y Cofio 2023

Dydd Sul, 12 Tachwedd, bydd miliynau o bobl ar hyd a lled y byd yn ymgynnull o flaen cofebion neu'n dod ynghyd mewn capeli ac eglwysi i gofio am fywydau a gollwyd mewn rhyfeloedd byd. Yma mae Aled Davies yn ein hatgoffa o'i arwyddocâd arbennig eleni mewn cyfnod o densiynau a rhyfela.

Cynhelir Sul y Cofio yn draddodiadol ar yr ail Sul ym mis Tachwedd, y Sul agosaf at 11 Tachwedd – a diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf am 11 o'r gloch ym 1918. Dyma'r unfed awr ar ddeg ar yr unfed dydd ar ddeg o'r unfed mis ar ddeg. Ar y diwrnod hwn yn Llundain bydd y brenin yn gosod y dorch gyntaf ar y Senotaff, gan gael ei ddilyn gan aelodau eraill o'r teulu brenhinol. Yna, bydd arweinwyr y gwahanol bleidiau gwleidyddol yn gosod torchau, ac yn eu mysg bydd Prif Weinidog Cymru. Mae'r seremoni hon wedi ei darlledu'n fyw gan y BBC ers 1946. Yng Nghymru cynhelir gwasanaeth arbennig yng Nghaerdydd ac mewn sawl ardal arall ledled y wlad, a bydd arweinyddion y gwahanol bleidiau gwleidyddol ac arweinwyr crefyddol o bob ffydd yn ymgynnull i gofio a thalu teyrnged.

Y Pabi Coch a'r Pabi Gwyn

Ers 1921 mae'r Lleng Prydeinig wedi trefnu bod y pabi coch yn cael ei wisgo er mwyn coffáu'r bywydau a gollwyd mewn rhyfeloedd byd, a hefyd fel ffordd o gasglu arian i deuluoedd y rhai a arteithiwyd gan ryfel. Erbyn hyn, mae llawer yn dewis gwisgo'r pabi gwyn, sy'n symbol o geisio heddwch yn ein byd, ac mae'r arferiad hwn yn mynd yn ôl i'r flwyddyn 1926.

Gweddi wrth edrych ar y Pabi Coch

Arglwydd, cofiwn am yr holl bobl a gollodd eu bywydau mewn rhyfeloedd – gwŷr ifanc a merched a wynebodd fwled a magnel, a gollodd chwys a gwaed, a anafwyd mewn corff, meddwl ac enaid, a gollasant eu bywydau yn y drin. Gweddiwn dros deuluoedd y rhai a gollwyd: mamau a thadau, gwragedd a phlant a dreuliodd oes yn galaru am eu hanwyliaid a gollwyd ar faes y gad. Ac wrth gofio'u hymdrech a chan feddwl am y teuluoedd sy'n bryderus am eu hanwyliaid o hyd, gweddiwn y bydd

dy dangnefedd di, sydd uwchlaw pob deall, yn gweinidogaethu i bob ofn, galar a phoen eto heddiw. Er mwyn Iesu Grist. Amen.

Gweddi wrth edrych ar y Pabi Gwyn

O Arglwydd, agor fy llygaid fel y medraf weld anghenion pobl eraill. Agor fy nghlustiau fel y medraf glywed eu cri. Agor fy nghalon fel na fydd angen iddynt fod heb ymgeledd. Paid â gadael i mi fod ag ofn amddiffyn y gwan oherwydd ddiellonedd y cryf. Dangos i mi lle mae angen ffydd, gobaith a chariad. Defnyddia fi i'w dwyn i'r manau hynny sy'n anghenus. Felly, agor fy llygaid a'm clustiau fel y medraf yn ystod y dydd hwn gyflawni rhyw weithgarwch o heddwch er dy fwyn. Amen.



Byd terfysglyd 2023

Eleni, wrth goffáu ac edrych yn ôl, bydd ein meddyliau'n naturiol yn y presennol, a realiti byd lle mae ymladd a brwydro'n dal i lenwi penawdau'r papurau newydd. Mae'r rhyfela'n parhau rhwng Rwsia ac Wcráin, a'r difrod a'r lladd yn parhau. Ac ers mis bellach, yn dilyn ymosodiad gan Hamas ar Israel, mae'r tensiynau yn y Dwyrain Canol wedi dwysáu, a'r rhyfela rhwng Israel a Gaza wedi arwain at gollu miloedd o fywydau, ac mae miliynau hefyd wedi colli eu cartrefi. Mae'r ddau babi – y coch a'r gwyn – yn ein hatgoffa o hyd o'r byd amherffaith rydym yn byw ynddo, a'r angen i ninnau weithredu a gweddi dros heddwch. Gweddiwn yn daer felly dros gyfiawnder a heddwch i'n byd.

Arglwydd Dduw, dragwyddol Dad, fe'n creaisit ni ar dy lun a'th ddelw dy hun. Ond mae ein pechod wedi gwyrddroi meddyliau pobl a thrwy'r byd gwelwn y ddelw wedi'i

hanharddu. Ar draws y byd gwelwn lawer o anghyfiawnder ac esgeuluso hawliau pobl eraill a'n cyfrifoldeb personol. Gweddiwn yn arbennig eleni dros y sefyllfa dorcalonnus yn Israel a Gaza, gan ymbil am heddwch a diwedd ar y trais a'r rhyfela. Gweddiwn hefyd dros bawb sy'n gweithredu i geisio cymod, a thros y gwasanaethau argyfwng brys sy'n cynnig cymorth dyngarol o dan amgylchiadau anodd a pheryglus. Cofiwn hefyd am y rhyfel sy'n parhau yn Wcráin, a'r miliynau sydd wedi'u dadleoli yno. Gweddiwn dros deuluoedd pawb ym mhob man sydd wedi colli anwyliaid o ganlyniad i ryfeloedd diweddar.

Arglwydd, trugarha wrthym.

Arglwydd Iesu Grist, Ti yw ein heddwch ni. Ond cefaist dy gloi allan o galonnau a meddyliau pobl. Pan nad yw dy deyrnas, dy ras, dy ffydd a'th arglwyddiaeth yn cael eu croesawu, caiff dioddefaint, anghyfiawnder a llygredd gartrefu yn eu lle. Arglwydd, wylwn am fod llygredd ac anonestrwydd, hunanoldeb, anghyfiawnder a thrais yn cerdded coridorau grym. Arglwydd Dduw, yn dy drugaredd tosturia wrthym, wrth ein llywodraethwyr, ein harweinwyr a'r rhai sydd mewn awdurdod.

Arglwydd, trugarha wrthym.

O Ysbryd Glân, gweddiwn dros y rhai sydd mewn awdurdod. Cyflwynwn hwy i ti, gan weddiö y cawn ein tywys yn ffordd uniondeb a thangnefedd.

Gweddiwn, Arglwydd tirion, ar i Ti unioni pob camwedd a sicrhau hawliau'r rhai sy'n cael eu cam-drin neu eu llethu gan anghyfiawnder eu hamgylchiadau. Cadwa ni, o Dad nefol, rhag camu'r tu hwnt i'n hawdurdod. Ti a ddywedodd: 'Myfi piau dial. Myfi a dalaf yn ôl.' Ymddiriedwn yn dy gyfiawnder, yn dy ffyddlondeb i'th gymeriad a'th addewidion.

Ond Arglwydd, gweddiwn y bydd y gras a'r cariad a gusanodd euog fydd yn diddanu'r trist, yn dwyn cyfiawnder a heddwch i bawb sy'n cael eu gorthrymu gan eraill. Yn dy drugaredd, cofia'n byd ac adfer y greadigaeth oll i gyflawnder ac undod perffaith yn Iesu Grist.

Arglwydd, trugarha wrthym yn Iesu Grist, ein Harglwydd, Amen.

Bendith y 70au



Ddydd Sadwrn, 21 Hydref, daeth oddeutu hanner cant o bobl i'r Drenewydd i gynhadledd 'Bendith y 70au' i hel atgofion a dathlu'r fendith ysbrydol a welwyd yng Nghymru hanner can mlynedd yn ôl.

I lawer o bobl, o'r tu allan ond hefyd oddi mewn i'r eglwysi, sydd wedi arfer meddwl am y blynyddoedd o ddechrau'r chwedegau hyd y presennol fel cyfnod o ddirywiad ysbrydol yng Nghymru, mae'n bosibl bod unrhyw sôn am fendith yn od a dieithr. Onid dirywiad sydd wedi nodweddu'r blynyddoedd hyn? Onid llesgedd ysbrydol a welodd y mwyafrif ohonom am ran helaethaf o'n hoes yng Nghymru?

Onid i unrhyw un a fu'n rhan o'r cynnwrf ysbrydol a'r gweithgaredd Cristnogol ym mlynnyddoedd cynnar y saithdegau, nid dyna'r stori gyflawn. A bwriad y criw o gyfeillion a drefnodd y gynhadledd oedd adrodd peth o hanes y cynnwrf, ac yn benodol yr hyn a ddigwyddodd yng ngholegau Aberystwyth a Bangor, gan hel atgofion a dathlu'r hyn a wnaeth Duw'n rymus yn eu plith, i'n hatgoffa hefyd o'r hyn y gall eto'i gyflawni.

Un ysgogiad i drefnu'r gynhadledd oedd y ffilm 73 a gynhyrchwyd gan Gwyn Rhydderch ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan ym mis Awst. Mae'n adrodd stori'r cynnwrf ysbrydol a welwyd yn Llŷn ac Eifionydd ddechrau'r saithdegau ac a gyrhaeddodd ei anterth ym 1973 (I weld y ffilm, ewch i <https://youtu.be/eVEVPYGojao>). Mae'n fwriad i gynhyrchu ffilm debyg i gofnodi'r hyn a ddigwyddodd yn y colegau yn yr un cyfnod ac yn fuan wedi hynny. Gobaith trefnwyr y gynhadledd hwythau oedd cofnodi'r hanes, rhag iddo fynd yn angof,

o sylweddoli cyn lleied yr ysgrifennwyd amdano.

Cadeiriwyd y gynhadledd gan John Treharne. Yn sesiwn cyntaf y bore, gosododd Wyn James y cyfnod yn ei gyddestun hanesyddol: canrif o ddirywiad ar lawer ystyr fu'r ugeinfed ganrif i'r eglwysi yng Nghymru, ac eto gwelwyd adfywiad mewn gwahanol ardaloedd a chyfnodau. Dangosodd hefyd fod yr hyn a ddigwyddodd yn gyson â'r adfywiad ysbrydol a gafwyd mewn cyfnodau mwy llewyrchus, hyd yn oed yng nghyfnod Pantycelyn. Yn yr ail sesiwn, soniodd Hywel Meredydd Davies am y cynnwrf a welwyd ym Mangor o 1973 ymlaen gan gyfeirio at brysurdeb y Gymdeithas Gristnogol a'r modd y bu Duw ar waith yn troi llawer at Grist yn ogystal â chadarnhau llawer a oedd eisoes yn Gristnogion cyn cyrraedd Bangor.

Wedi orig ddifyr dros ginio cafwyd dau sesiwn yn y prynhawn. Yn y cyntaf, bu Sylvia Prys a Dafydd Picton Jones yn rhannu eu profiad o'r cynryfiadau yn Aberystwyth, a soniodd Arfon Jones am ei brofiad fel Cristion ifanc yn Nyffryn Clwyd cyn iddo yntau fentro i Fangor. Yn yr ail, cafwyd rhagor o atgofion am Bangor gan Densil Morgan, Gwenan Job a Catrin Roberts tra soniodd Bryn Williams am ei brofiad o ddod i ffydd cyn dyddiau coleg.

I weld a chlywed yr holl gyfraniadau, ewch i <https://www.youtube.com/playlist?list=PLH4JpblhvRT4QzvDHPdnP1Iuh7uAWE7OW>

Mae'n debyg bod mwyafrif y gynulleidfa yn fyfyrwyr ym Mangor neu Aberystwyth yn y cyfnod dan sylw. Iddynt hwy, roedd yr atgofion yn felys, a braf oedd cael

edrych 'nôl ar beth o'r hanes. Ond wrth gofio'r fendith a'r holl weithgarwch – y cyfarfodydd gweddi a'r astudiaethau Beiblaidd, y cyfarfodydd trafod a'r oedfaon a'r ysgolion Sul, yr encilion a'r ymgyrchoedd, y pregethau a'r cenhadu a'r efengylu, y trôedigaethau a'r gwrthwynebiad – yr un peth a bwysleiswyd oedd bod Duw ar waith trwy ei Ysbryd Glân. Ac un peth sy'n ein hatgoffa o hynny yw'r modd y gwelwyd pobl yn dod i ffydd yng Nghrist yn y cyfnod hwnnw mewn rhannau eraill o'r wlad heblaw'r colegau, a llawer ohonynt yn gwbl ddigyswllt â'i gilydd.

Hawdd yw rhamantu ynghylch yr hyn a ddigwyddodd, fel y cydnabu mwy nag un o'r cyfranwyr. Ac o gofio nad pawb a fu'n rhan o'r fendith sy'n dymuno edrych 'nôl ar y cyfnod, hawdd deall pam y byddai eraill yn tybio nad yw'r cyfan o ddi-ddordeb iddynt hwythau. Ond awgrymaf mai camgymeriad fyddai hynny am o leiaf ddau reswm.

Yn gyntaf, mae'n werth adrodd am waith Duw yn bywhau ac adfywio. Mae'n dda dysgu am ddiwygiadau'r canrifoedd; ond mae'n dda hefyd i ni wybod am waith grymus a gyflawnodd Duw'n fwy diweddar ac o fewn cof llawer ohonom.

Ac yn ail, ac yn arbennig o berthnasol i'n heglwysi anghydfurfiol a'u haelodau, yr oedd bendith y saithdegau'n ddyllanwadol o ran parhad y dystiolaeth Gristnogol yn ein plith am fod cynifer o weinidogion a fu'n gwasanaethu'r eglwysi wedi hynny yn blant y fendith. Pe na byddai amryw ohonynt wedi dod i brofiad o ras Duw bryd hynny, go brin y byddent erioed wedi ymdeimlo â galwad Duw i'r Weinidogaeth.

John Pritchard

Cyfarfod Myfyrwyr Blwyddyn Gap Coleg y Bala



Bob blwyddyn, o fis Medi ymlaen, fe fydd yna ffarwelio a chrosawu yn digwydd yng Nghanolfan Plant ac Ieuencid Coleg y Bala. Bydd y rhai a fu ar y cynllun hyfforddiant Blwyddyn Gap yn symud yn eu blaen i'r cam nesaf ar eu taith, a bydd rhai newydd yn cael eu croesawu at y tîm sydd yno. Mae'r Flwyddyn Gap yn gyfle cyffrous i ddatblygu doniau a rhoi ffydd ar waith, a thyfu ynddi wrth wasanaethu a dysgu a byw efo eraill.

Oes rhywun rydych chi'n ei adnabod a hoffai fanteisio ar y profiad hwn? Neu oes gen ti awydd bod yno dy hun? Gellir gwneud ceisiadau eleni am y flwyddyn gyfan neu am ychydig fisoedd, yn ddiwybnnol ar sefyllfa'r unigolyn. Mynnwch sgwrs efo Siân yn y Bala (manylion o ddilyn y ddolen uchod).

Diolch i Alice, Iwan a Dylan, y rhai sydd wedi dechrau yno eleni, am rannu ychydig am eu taith hyd yma a'u gobeithion efo ni.



Alice Grace Evans

Fy enw i yw Alice a dwi'n dod o ardal fach o'r enw Llandysul, yng Ngheredigion. Dwi wedi byw hefo Mam, Dad, fy chwaer a loads o anifeiliaid ers erioed.

Felly, pam gwneud blwyddyn gap yng Ngholeg y Bala? Dwi wedi byw yn yr ardal drwy gydol fy mywyd, ac roedd isie 'bach o newid arna i. Ar ôl gorffen lefel A, symudais ymlaen i goleg i astudio Diploma Lefel 3 mewn Celf (blwyddyn sylfaen). Dyna lle wnes i sylweddoli mai hobi fydd celf i fi, dim gyrfa. Felly ... meddyliais am wneud blwyddyn gap yng Ngholeg y Bala. Dwi wedi bod yn mynychu cyrsiau yn y coleg ers pan oeddwn yn 15 oed, felly mae'r Coleg yn teimlo fel ail gartref i mi.

Fy ngobaith yw y bydd y flwyddyn yma'n rhoi sgiliau newydd i mi. Dwi eisiau dod yn fwy hyderus a datblygu fy sgiliau cyfathrebu hefo pobl wahanol ac oeddrannau gwahanol. Rydw i hefyd eisiau gwella fy sgiliau byw gan mai dyma'r tro cyntaf i mi fyw'n annibynnol.

Beth dwi eisiau i'r ieuencid y byddaf yn gweithio gyda nhw dros y flwyddyn yw y byddan nhw'n teimlo yr un mor ddiogel a chartrefol yma ag rydw i wedi bod. Nid dim ond i wneud gwaith ydw i yma, ond i adeiladu perthynas hefo'r ieuencid, bod yn ffrindiau iddyn nhw, a cherdded gyda nhw wrth iddynt gerdded gydag Iesu a dysgu'r efengyl iddyn nhw.

Yn ychwanegol at hyn i gyd, dwi wir eisiau i'r flwyddyn yma fy helpu ar fy nhaith ysbrydol. Dwi'n obeithiol y bydd y flwyddyn yma'n cryfhau fy mherthynas hefo Duw ac y bydd yn brofiad hollol wych. Dwi'n gweddio y byddaf yn profi bywydau fydd yn newid yn gyfan gwbl ac y bydd fy mherthynas i a'r Arglwydd yn dyfnhau hefyd. Byddwn yn rili gwerthfawrogi eich gweddïau chi i ni i gyd yn ystod y flwyddyn yma (fi, y 'gappers' eraill, y plant a'r ieuencid, y coleg, a staff y coleg)! Diolch yn fawr.



Dylan Alex Jones

Fy enw yw Dylan, dwi'n 18 oed ac yn dod o bentre yn ymyl Caernarfon o'r enw Waunfawr. Dwi'n hoff iawn o rygbi a seiclo. Mi es i i ysgol Syr Hugh Owen ac wedi hynny i goleg Llangefni i 'Weldio'.

Mi ddes i adnabod Iesu Grist trwy fynd i wasanaethau 'Caru Caersalem' ar nosweithiau Sul yng Nghaernarfon gyda fy ffrindiau. Ro'n i wedi bod yn mynd i'r clwb ieuencid yng Nghaersalem ers ambell flwyddyn ac i'r cyrsiau yng Ngholeg y Bala yn barod. Ar y nosweithiau Sul yma dyma Gwenno Hughes a Lowri Jones yn dechrau darllen y Beibl gyda mi ac mi wnes i ddisgyn mewn cariad gyda Gair Duw. Ers hynny dwi wedi bod yn dysgu mwy a mwy trwy ddarllen fy Meibl. Cefais hefyd brofiad ysbrydol yn Souled Out yng Ngholeg y Bala pan wnaeth Lydia Power weddio gyda mi a fy ffrind. Teimlais gariad Duw yn llifo trwydda i a'i gynhesrwydd fel blanced amdanaf.

Dewisais ddod i wneud blwyddyn gap yn y Coleg gan fy mod eisiau tyfu yn fy ffydd a dod i adnabod Iesu yn well. Dwi hefyd eisiau datblygu fy hyder a gwneud pethau allan o fy *comfort zone*, pethau fydd yn fy herio i! Dwi hefyd eisiau ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddod i nabod Iesu. Petaswn i 'mond yn gallu gwneud hynny ym mywyd un plentyn / person ifanc, fe fuaswn i'n hapus iawn.

Fe fuaswn i wir yn gwerthfawrogi eich gweddïau drosta i a dros fy amser yma yng Ngholeg y Bala. Diolch yn fawr.



Iwan Evans

Fy enw yw Iwan a dwi'n dod o bentref Llandysul yng Ngheredigion. Dwi'n 18 oed a newydd orffen gwneud fy lefel A. Dwi wrth fy modd gyda trenau a phob math o bethau 'techy'.

Pam gwneud blwyddyn gap yng Ngholeg y Bala? Cefais fy magu mewn teulu Cristnogol ond, a bod yn onest, pan oedwn i'n iau, doedd ffydd ddim wir yn gwneud llawer o synnwyr i mi. Dyna pryd 'nes i gychwyn dod i'r Cwrs Ieuencid yng Ngholeg y Bala. Roedd y sgysiau yn fwy *relatable* i fy mywyd a dyna pryd dechreuodd fy ffydd i dyfu.

Gan fy mod wedi gweld yr effaith mae Coleg y Bala yn ei gael ar dwf ffydd plant a phobl ifanc, roeddwn eisiau bod yn rhan o'r gwaith. Dwi'n teimlo fod gennyf gyfraniad i'w wneud i alluogi'r gwaith yma i ddigwydd.

Fy ngobaith am y flwyddyn sydd i ddod yw y bydd fy ffydd yn cryfhau ac y byddaf yn dod i adnabod Iesu'n well. Dwi hefyd eisiau helpu plant a phobl ifanc Cymru i ddod i adnabod Iesu.

Buaswn i'n gwerthfawrogi'n fawr petasai modd i chi weddio drosta i a dros y gwaith yma yn y Coleg. Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at bopeth sydd gan Dduw ar fy nghyfer dros y flwyddyn i ddod.

Cynhaeaf ar hap

Yn ôl un adroddiad Almaenig swyddogol yn ystod yr Ail Ryfel Byd: 'Disgynnai'r bomiau ar hap.'

Un tro, meddai'r chwedl, cafodd sgorpion ei hun wedi ei ynysu ar ddarn o dir yng nghanol afon yn ystod cyfnod o lif. Roedd y dŵr yn codi'n gyflym, a chan nad oedd y sgorpion yn medru nofio, roedd hi'n amhosib iddo groesi'r llif i gyrraedd man diogel. Yn sydyn, fe welodd froga yr ochr draw i'r afon. Gwaeddodd ar draws y dŵr, 'Helpa fi, Mr Broga, wnei di fy rhoi ar dy gefn er mwyn i mi allu croesi'r afon?'

'Wel nawr, Mr Sgorpion! Sut fydda i'n gwybod, os bydda i'n dy helpu, na fyddi'n fy lladd?' holodd y broga.

'Oherwydd,' meddai'r sgorpion, 'os bydda i'n ceisio dy ladd di, fe fyddwn innau'n marw hefyd, achos fedra i ddim nofio!'

Felly, dyma'r broga'n cytuno i gludo'r sgorpion ar draws y llif, a nofiodd i nôl ei deithiwr. Llusgodd y sgorpion ei hun ar gefn y broga, ac wrth i'r dŵr mwldlyd chwyrlio o'u hamgylch, arhosodd y broga yn agos i'r wyneb i wneud yn siŵr na fyddai'r sgorpion yn bodd. Tua hanner ffordd ar draws yr afon, teimlodd y broga bigiad sydyn yn ei gefn, cyn gweld y sgorpion yn tynnu ei bigyn o groen y broga. Yn sydyn dechreuodd y broga golli'r teimlad yn ei gefn, a sylweddolodd fod ei gyhyrau'n gwano.

'Y ffŵl,' gwaeddodd y broga. 'Bydd y ddau ohonom yn marw! Pam wnest ti hyn, er bod gobaiht y byddai'r ddau ohonom yn medru goroesi?'

'Oherwydd,' meddai'r sgorpion, 'mae yn fy natur - dyma'r Dwyrain Canol!'

Dehongliad newydd o hen chwedl gan yr Iddew a'r athronydd Arthur Koestler (testun fy noethuriaeth) yw hwn. Mae'n crynhoi cymaint o stori Palesteina ac Israel, ac mae mor wir heddiw ag yr oedd hanner canrif yn ôl pan oedd Koestler yn ysgrifennu. Ai fi yw'r unig un sydd wedi teimlo anobaith llwyr wrth wyllo'r sefyllfa'n datblygu yn y Dwyrain Canol yn ystod y mis diwethaf? Mae wedi bod yn 'gynhaeaf ar hap'. Nid yw'r bomiau'n dewis y rhai fydd yn dioddef.

Ni all yr un erthygl ddatrys gelyniaeth sy'n mynd yn ôl ymhellach o lawer na sefydlu cenedl Israel yn 1948. Ni fyddai cymodi'r broga a'r sgorpion fyth yn hawdd! Ond sut y dylem ni fel Cristnogion gymryd rhan mewn unrhyw broses heddwch? Yn gyntaf, gan ddyfynnu'r gwleidydd Sbaenaidd Josep Borrell:

'Rhaid inni ymdrechu i fynd y tu hwnt i'n hemosiynau; fel arall, fyddwn ni'n dda i ddim yn y gwaith o geisio datrysiaid i'r ymrafael hwn. Gwrandewch - peidiwch ag ychwanegu at y gyflafan. Mae lladd 1,300 o bobl mewn 24 awr yn golygu eich bod yn mynd ar eu hôl mewn gwaed oer, gan chwilio am y manau lle maen nhw'n cuddio. Does dim angen ychwanegu at yr hyn sydd wedi digwydd - dim o gwbl. Er hynny, yr un pryd ag y medrwn dystio bod lladd 270 o bobl ifanc oedd yn dathlu bywyd (yng ngŵyl Re'im) yn warthus, oni allwn ddweud hefyd fod lladd 700-800 o blant wrth fomio Gaza yr un mor wrthun? Pam na allwn ddweud y ddau beth? Pan na all galaru am drasiedi mewn un lle ganiatáu digon o gryfder moesol i alaru am y llall?'

Felly, nid yw heddwch yn golygu cymryd ochr y naill neu'r llall. Mae'n golygu ceisio deall. (Faint tybed ydych chi'n ei wybod am y Dwyrain Canol? Fuoch chi'n addoli mewn synagog neu'n siarad â'r Rabbi lleol? Fuoch chi yng ngweddïau Jum'ah yn eich mosg lleol neu ydych chi wedi rhannu yng ngŵyl Ramadan?) O'm profiad yn ymweld â manau lle ceir cyflafan, mae thema gyffredin wedi dod yn amlwg: y methiant i wrando, neu hyd yn oed anwybodaeth am 'yr ochr arall'. I sicrhau unrhyw fath o

heddwch yn y Dwyrain Canol, rhaid i bob arweinydd eistedd i lawr a gwrando.

A yw hyn yn ormod i'w ofyn? Wrth edrych drwy focsys o ddogfennau'n croniclo gweddïau ysgrifenedig dros gyfnod o 30 mlynedd yn y Weinidogaeth, rwyf yn nodi sut y bu imi, dros ddau ddegawd, weddio am heddwch yng Ngogledd Iwerddon yn addoliad y Sul. Yn y diwedd, er gwaethaf popeth, fe ddigwyddodd. Digwyddodd oherwydd bod pobl wedi eistedd i lawr, gwrando ar ei gilydd, a siarad. *Yn ychwanegol at hynny, fe ddigwyddodd oherwydd yr holl weddïau a weddiwyd gan nifer dirif o Gristnogion.*


O, ie! Gweddi ... I sicrhau unrhyw fath o heddwch, yn eich cartref, yn eich cymuned neu yn Israel/Gaza, mae lesu yn mynnu eich bod yn ymuno yn y frwydr hon: 'Mae'r cynhaeaf yn fawr, ond y gweithwyr yn brin.' Geilw Tywysog Tangnefedd arnom, fel y galwodd y disgyblion cyntaf, i fynd i'r frwydr yn erbyn drygioni. Yr ydym yn llafurio er mwyn derbyn cynhaeaf o heddwch, cynhaeaf o waredigaeth, cydraddoldeb a chyfiawnder.

Nid pobl ddiymadferth ydym ni. Ein harf, fel milwyr yn y fyddin yma, yw gweddi: gall y bomiau ddisgyn ar hap, ond mae ein gweddïau (neu fe ddylent fod) *wedi eu hanelu, yn wybodus, yn benodol.* Gweddi fydd yn rhoi i bawb - Iddew, Arab, Mwslim a Christian - eu darn eu hunain o dir heb ofni ymosodiad na thywallt gwaed, tir fydd yn caniatáu i'w plant dyfu i fyny mewn byd o heddwch. Mi fydd yn frwydr hir a chaled yn erbyn drygioni. Ond, gyda Duw a gyda'n gweddïau, ni fydd y sgorpion byth yn ennill.

'Curant eu cleddyfau'n geibiau, a'u gwaywffyn yn grymanau. Ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach.'

Mike Ward

Llywydd, Cymdeithasfa'r Dwyrain




Cynhadledd Flynyddol 2023

Ar-lein: trwy gyfrwng Zoom
9.30yb - 12.00yp, Dydd Sadwrn, 18 Tachwedd 2023

Sesiwn 1: Yr Argyfwng yn Gasa
- Jane Harries, Ffred Ffrancis ac Anna Jane Evans.

Sesiwn 2: Ffydd, Gobaiht Cariad: Gweithredu'n Lleol
- John Llewellyn Thomas, Annalyn Davies a Gareth Ioan.

Sesiwn 3: Cyfarfod blynyddol yr elusen.



Cofrestrwch drwy anfon e-bost at:
cristnogaeth21@gmail.com cyn ddydd Llun, 13 Tachwedd.
Anfonir dolen a rhaglen atoch yn ystod yr wythnos.

Ffydd a diwylliant

Cadw'n llygad ar y bêl!

Roedd hi'n eglwys eang a'r gynulleidfa o bob lliw a llun, yn amrywiol iawn o ran oed a chefnid. Roedden nhw'n deuluoedd, yn unigolion, yn griwiau, yn amrywiol ond yn un yn eu ffydd, eu gobaith a'u cariad. Roedd y canu'n goch, ond does bosib mai'r neges sy bwysicaf? Fel arfer roedd rhai wedi cyrraedd yn wirion o gynnar, eraill yn gwthio i'w lle ar y funud olaf, rhai yn yr un sedd ers blynyddoedd ac eraill yn chwilio'n nerfus am le i eistedd, ac yn gobeithio pedio tramgwyddo.

Fe gododd un i arwain. Roedd o wedi meddwi ar ei lais ei hun braidd. Digon diddychymyg oedd ei bregeth, ei ddewis o donau a geiriau'n elfennol, ond roedd o'n llathen o'r un brethyn â ni. Felly, roedd o'n gwneud y tro, a siawns na fydd yna un gwell y tro nesa. Roedd yna fendith yn y weddi dawel, a'r un peth ar feddwl pawb.

Dros y tair neu bedair blynedd diwethaf fe all darllenwyr selog (ac eliffantaidd eu

cof) y golofn hon olrhain datblygiad fy mherthynas i â phêl-droed gam wrth gam. O eistedd yn y gegin gefn yn gwranddo o bell ar yr hwyl yn y stafell fyw, i glosio peth, nes mod i'n dilyn o hirbell a bron yn medru cynnal sgwrs elfennol gyda rhai cefnogwyr uniongred.

A dyna sut y bûm i ar bererindod i Gaerdydd y dydd Sul o'r blaen (ar ôl y gwasanaeth diolchgarwch!) yn gwylio Cymru a Croatia.

Os ca' i barhau â mharodi, fe wnaeth y brawd oedd yn arwain gryn argraff arna i. Wedi'r cwbl, fe fûm yn gwranddo arno am dros ddwyawr (roedd o wedi meddwi ar gryn dipyn yn fwy na'i lais ei hun).

Roedd o'n frwd iawn – yn benderfynol o drio codi hwyl. Yn canu ac yn clapio: "Os y'ch chi yn caru Cymru, clapiwch nawr! [x2] Os y'ch chi yn caru Cymru [x3], clapiwch nawr!" ac yn y blaen ac yn y blaen, a throsodd a throsodd a throsodd yn Saesneg, mewn acen Gymraeg gref.

Roedd ganddo fo gynulleidfa gaeth – doedd dim dwywaith nad oedden nhw'n credu yr un fath a'r un mor angerddol ag o, ond doedd o ddim yn tanio.



Llun: Adobe Stock/Oleksii

Roedd pawb a'u llygaid ar y gêm, yn gwylio pob symudiad, yn dal eu gwynt, yn porthi, yn canu emynau roedd rhywun arall wedi eu ledio. Ond roedd o mor daer dros ei genhadaeth nes ei fod o'n sefyll â'i gefn at y cae, yn pregethu aton ni ond yn colli'r gêm, yn methu deall gorfoledd ac ocheneidiau'i gynulleidfa.

Doedd gan neb y galon i ddweud dim wrtho; doedd hyd yn oed y swyddogion diogelwch ddim am ei droi allan.

Ges i flas ar y gêm. Peryg mod i wedi cael trôedigaeth go iawn erbyn hyn. Ond, ac eithrio Harry Wilson, y brawd meddw fydda i'n gofio. Dwi wedi meddwl llawer a ydyn ni fel eglwysi wedi colli golwg ar y gêm a thynnu ein llygad oddi ar y bêl. Neu ella mod i wedi meddwi gormod ar amwysedd!

Rocet Arwel Jones

Cymdeithasfa'r Gogledd (Hydref), Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Moreia, Llangefni oedd cartref Cymdeithasfa'r Gogledd, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ar 17 Hydref 2023 dan lywyddiaeth y Parchg Anna Jane Evans. Etholwyd Mrs Meinir Lloyd Jones, Penrhyndeudraeth, yn ddarpar Lywydd y Gymdeithasfa (2024/5) a chadarnhawyd y Parchg Huw Powell Davies, yr Wyddgrug, yn Ysgrifennydd, gan olynu'r Parchg Ddr Elwyn Richards. Braff oedd croesawu Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, y Parchg Aneurin Owen, i'r eisteddiadau.

Cafwyd adroddiad gan y Parchg Nan Powell Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Fe wnaeth ein hatgoffa mor heriol a digalon yw'r cyfnod hwn i weinidogion yn aml, ond bod lles a llawenydd o gonsyrn mawr i'r enwad. Gallwn ymfalchio am 'Iesu Grist, yr un ydyw, ddoe a heddiw ac am byth'.

Gyda rhyfela a gwrthdaro mewn cynifer o wahanol rannau o'r byd, cafodd cynnig brys ei basio yn galw am heddwch a chymod, gan gondemnio pob gweithred o drais.

Cafwyd adroddiad gan Mrs Carys Davies ar Gynllun Golud Eglwys Bresbyteraidd Cymru, sef cynllun i gefnogi aelodau sy'n byw gyda dementia. Mae cynllun Golud wedi codi ymwybyddiaeth o ddementia o fewn yr Eglwys drwy gynnal sesiynau o fewn yr Henaduriaethau, a chynhyrchu deunyddiau pwrpasol. Y gobaith yw hyrwyddo eglwysi sy'n gynhwysol o safbwynt unigolion â dementia.



O'r chwith i'r dde: Elwyn Richards, cyn-ysgrifennydd; Huw Powell-Davies, yr ysgrifennydd newydd; Nan Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol; Aneurin Owen, Llywydd Cymanfa Gyffredinol EBC; Anna Jane Evans, llywydd; Dewi Lewis-Jones, trysorydd

Y Parchg Christopher Prew, Porthmadog, draddododd anerchiad y Cymun. Ei destun oedd Luc 22:18 – 'Oherwydd 'rwy'n dweud wrthych nad yfaf o hyn allan o ffrwyth y winwydden hyd nes y daw teyrnas Dduw.' Er bod Crist yn gweld y Groes yn dynesu, sôn am fuddugoliaeth a wnâi. Cawsom anogaeth gan Mr Prew i ymollwng i arweiniad Duw ac i gynorthwyo ein gilydd i ddal gafael yn y 'darlun mawr'. Llawenychnwn yn ei fuddugoliaeth gref.

Coffâd

Cafwyd coffâd i weinidogion a blaenoriaid oedd wedi marw yn ddiweddar, ac offrymwyd gweddi gan y Parchg Ddr Alun Morton Thomas, Gweinidog Gofalaeth Llanfair-pwll a'r Cylch, sy'n cynnwys Moreia.

Y rhai a fu farw

Coffáu Cyn-lywydd Cymdeithasfa'r De: Yr Athro Brynley F. Roberts

Coffáu Cyn-lywyddion Cymdeithasfa'r Dwyrain: Y Parchg Barrie Redmore; Mr Mervyn Phillips

Gweinidogion a hunodd

Y Parchg Emlyn Richards, BA BD, Cemaes; Y Parchg Robert Wyn Griiffith, BA, Llangybi

Blaenoriaid a hunodd

Conwy a Dyfrdwy: Mrs Iola Wyn Jones, Capel Unedig Penmachno

Dyffryn Clwyd: Edward Henry Ames, y Groes; John Glyn Roberts, Mynydd Seion, Abergele; Mr Meirion Williams, Salem, Cyffylliog

Gorllewin Gwynedd: Mr Stephen Williams, Ala Road, Pwllheli; Mr Ifor Williams, Peniel Newydd, Llanbedrog

Henaduriaeth Trefaldwyn: Mr Thomas Ellis Humphreys, Capel Coffa Lewis Evan, Adfa

Gair Duw ar Waith gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrddodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 7

'Y Gair ar waith' – Rhannu'r Gair ag eraill
Nehemeia 8:9–12 | 12 Tachwedd



Gweddi

Diolch, Arglwydd, am y fraint o fedru darllen ac am y cyfle i ddarllen dy Air yn ein hiaith ein hunain. Yn ein myfyrddod heddiw diolchwn am waith yr eglwys yn trosglwyddo'r testun Beiblaidd mewn ieithoedd a chyfryngau cyfaddas â gofyn pobl. Helpa ni i fod yn gefnogwyr da ac yn gyflwynwyr effeithiol o'th wirionedd di i eraill. Amen.

Darlleniad: Nehemeia 8:9–12

'Buont yn sefyll yn eu lle am deirawr yn darllen o lyfr cyfraith yr Arglwydd eu Duw.' (Nehemeia 9:3)

Cyflwyniad

Rhan o waith amlwg pob eglwys yw tynnu sylw at y Beibl a chyflwyno neges y Beibl i bob llwyth, gwlad ac iaith. Bu Cymru yn ffodus fod yr Ysgrhythur wedi cael ei chyfieithu i'r Gymraeg gan fawrion ymroddedig fel William Salesbury a William Morgan, a byddwn yn cofio gwaith y cyfieithwyr a'r esbonwyr hyd at heddiw. Pan ddarllenodd Esra yr Ysgrhythur Iddewig i'r genedl oedd wedi dychwelyd o Fabilon yn y bumed ganrif cyn Crist, cafwyd effaith chwyldroadol ar y genedl, a cheir llu o hanesion am Air Duw yn dwyn pobl i feddwl o ddifrif am eu bywydau eu hunain, a'u diffyg perthynas â Duw. Roedd y genedl wedi colli sylwedd ei hunaniaeth, yn wleidyddol ac yn grefyddol, ac ar ôl y profiadau trawmatig yn yr Aifft, wrth ddychwelyd i Jerwsalem, roedd angen deffroad ysbrydol arnynt.

Cofir am effaith tystiolaeth Philip ar yr eunuch yn yr anialwch (Actau 8), ac mae pobl fel John Wesley a William Williams,

Pantycelyn, yn enghreifftiau o bobl a gafodd drôedigaeth neu adnewyddiad ffydd wrth wrando ar bregethu'r Gair. Cred a phrofiad yr eglwys yw fod clywed y Gair yn cael ei ddarllen a'i gyhoeddi yn chwyldroi person fel ei fod/ei bod yn edrych at Grist ac yn profi bywyd newydd.

Myfyrddod

Bydd darllen llenyddiaeth Cymdeithas y Beibl yn cynnwys enghreifftiau cyfoes o ddiwygiadau. Pobl a dderbyniodd gopïau o'r Beibl yn eu hiaith ugain mlynedd yn ôl yw trigolion Swaziland, gwlad yn ne-ddwyrain cyfandir yr Affrig sy'n ffinio â De'r Affrig a Mozambique. Cenedl fechan yw hon gyda 1.2 miliwn o bobl a 85% ohonynt yn Gristnogion, a thraean o'r boblogaeth yn ennill llai na phunt y dydd. Mesur o'i harswyd yw bod chwarter ei hoedolion yn byw gyda HIV a bod chwarter y plant o dan 17 oed yn amddifad.

Dyfynnir Albert, gŵr 54 oed a dderbyniodd Feibl yn 2016, yn dweud, 'Rwy'n byw am fod yr Arglwydd gyda mi, a phan ddarllenaf y Beibl hwn bydd fy enaid yn cael ei adnewyddu.' Ar yr un daflen sonnir am greu fideo o hanesion Beiblaidd ar ffurf arwyddo ar gyfer y byddar. Dywed Cymdeithas y Beibl fod hyn yn costio £900 y stori. Efallai y gallai eglwys roi nod iddynt eu hunain i ariannu hyn yng nghorff blwyddyn a'i alw yn 'Air ar waith'.

Mae'r Beibl yn ffynhonnell gobaith i'r bobl hyn ac apêl Cymdeithas y Beibl yw bod y rhai sy'n berchen ar Feiblau ac yn rhydd i addoli fel y mynnont yn estyn

rhodd i gynorthwyo'r mentrau hyn sy'n dod â Gair Duw yn fyw i drigolion gwledydd fel Swaziland. Tybed a ydym ni'n darllen y Beibl yn gyson gan ofyn beth mae Duw yn ei ddweud wrthym? Nid mater o ddarllen yn unig ydyw ond agor ein heneidiau ein hunain i wrando ar Dduw yn siarad gyda ni.

Gweddi

Diolch, nefol Dad, am Gymdeithas y Beibl a'i gwaith chwyldroadol. Deisyfwn y bydd yn parhau i drosglwyddo'r Efengyl i iaith y gwledydd llai fel bod modd iddynt brofi rhyfeddod dy wahoddiad i bobl gredu yn Iesu a'i fyw bob dydd. Amen.

Cwestiynau i'w hystyried

- 1 Pa mor aml fyddwn ni'n darllen y Beibl, neu a oes perygl i ni ddarllen adrannau sy'n gyfarwydd ac yn gysurion i ni a dim llawer mwy?
- 2 Roedd cyfnod Esra a Nehemeia yn gyfnod dychweliad ac adferiad y genedl Hebreig i Jerwsalem, a bydd pob chwyldro crefyddol yn dechrau gyda chymryd Duw a'i dystiolaeth o ddifrif. A fyddwn yn darllen y Beibl er mwyn gallu rhyfeddu at fawredd a gallu Duw?
- 3 Bydd rhai am glywed cyfieithiad John Davies (1620) o'r Beibl, tra bydd eraill am ddarllen Beibl.net, cyfieithiad diweddar Arfon Jones o'r Ysgrhythur. Beth yw eich dewis chi, a pham?
- 4 Yn y rhifyn mis Hydref 2023 o gylchgrawn Cymdeithas y Beibl, *Word in Action*, sonnir am fersiynau mewn tafodieithoedd amrywiol yn China gan nad oedd y genhedlaeth hyn yn deall y fersiwn ym mhrif iaith China. A ydym yn cefnogi gwaith y Gymdeithas ac yn estyn rhodd iddynt er mwyn ei hyrwyddo?
- 5 A oes ysgol Sul neu ddsbarth Beiblaidd yn eich eglwys? Os nad oes, beth am sefydlu yn?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 12 Tachwedd, am 7.30yh

Bydd Ryland Teifi yn nodi Sul y Cofio wrth i'r ymdrech barhau dros heddwch yn y Dwyrain Canol. Daw'r emynau o Ganolfan Soar, Merthyr Tudful

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 12 Tachwedd, am 7:30yb a 16:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parchedig Rhun ap Robert, Bro Enlli

Sul, 12 Tachwedd, am 12yp

Oedfa ar Sul y Cofio yng ngofal Gethin Matthews

Llanw a thrai

Yn ddiweddar, fe gefais y fraint o grwydro a myfyrio ychydig, yn gyntaf drwy fynd i gyfrannu i gynhadledd yr Eglwys yng Nghymru ar efengylu a chenhadaeth, ac yna i gyfarfod datgorffori Bethany, Rhydaman, yr eglwys lle roedd Tad-cu yn weinidog. Nid annheg fyddai dweud fod y dda draddodiad eglwysig dan sylw – yr Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru (o'i roi felly) a hefyd yr hen Fethodistaidd Calfaidd (o ddefnyddio'u hen enw) – yn parhau i brofi trai difrifol. Mae'n drai sy'n rhan o drai mwy cyffredinol yng Nghymru a'r Gorllewin, wrth gwrs. Fe fues i hefyd yng nghyfarfod Cyngor Undeb Bedyddwyr Cymru lle roeddem ni'n trafod strategaeth am yr ugain mlynedd nesaf, gyda'r trai hefyd yn gefnlen amlwg i'r sgwrs.

Beth ellir ei ddweud am y trai yma? Sut mae ymateb yn ddiwinyddol ac yn ysbrydol iddo? Rwy'n credu fod lle ac angen i ni drafod, deall a hyd yn oed galaru am y trai cyn mynd yn syth i gynnig unrhyw atebion.

Yng nghynhadledd yr Eglwys yng Nghymru disgrifiodd un cyfrannwr y trai fel y teimlad yna o ffeindio eich hun yn y dŵr dwfn wrth nofio mewn llyn a'r oerni mawr yn eich taro o'r dyfnderoedd, a chithau wedi eich parlysu bron mewn ofn. Cyfeiriodd cyfrannwr arall at y realiti fod yr eglwys yn ei chael ei hun mewn cyfnod o drai drwy egluro bod yr eglwys yn talu'r pris am ei 'phechod', am ein hanffyddlondeb, ein diffyg menter fel disgyblion Teyrnas Dduw.

Yn fy sesiwn i yn y gynhadledd ceisiais wneud synnwyr o'r trai ac ymateb yr eglwys iddo fel mater o dderbyn fod eglwys Cymru heddiw mewn alltudiaeth. Byddai derbyn y realiti hwn wedyn yn ein galluoigi i ymateb yn briodol a chreadigol, gan dynnu gwersi o'r Hen Destament ynglŷn â sut mae bod yn bobl Dduw mewn tir estron.

Yna, yng nghwrdd datgorffori Bethany, Rhydaman, awgrymodd yr Athro Stephen Nantlais Williams fod yna dipyn o bethau y dylem ni fel Cristnogion ac eglwys edifarhau amdanynt a bod yna ryw beth tebyg i'r 'ystyfnigrwydd' mae Paul yn siarad amdano yn Rhufeiniaid 11 yn nodweddu Cymru heddiw: "Frodyr a chwirydd, dw i am i chi ddeall fod dirgelwch yma, rhag i chi fod yn rhy llawn ohonoch chi'ch hunain. Mae rhai o'r Iddewon wedi troi'n ystyfnig, a byddan nhw'n aros felly hyd nes y bydd y nifer cyflawn ohonoch chi sy'n perthyn i genhedloedd eraill wedi dod i mewn." (Rhufeiniaid 11:25)



Wrth i Gristnogion ac eglwysi drafod cenhadaeth ac adferiad heddiw, mae'n eithriadol o bwysig ein bod ni'n edifarhau ac yn galaru fel rhan o'r broses hon, gan gofio mai un ffordd o ddeall edifeirwch yw drwy 'ailfeddlw ein meddyliau' (to rethink our thinking).

Ond mae Duw yn dalarwaith yng Nghymru heddiw. Wrth i un mynegiant o'r eglwys brofi trai mae yna eglwys newydd yn cael eu plannu (gweler menter newydd gyffrous 100.Cymru) a hen eglwys i mentrau fel Caersalem, Caernarfon, a Choleg y Bala yn profi arwyddion gobraith. A thybed, yn nirgelwch trefn pethau, fod y trai a'r caledi ysbrydol sy'n nodweddu rhai eglwysi a rhai haenau o'r gymdeithas Gymreig heddiw yn digwydd drwy drefn rhagluniaeth er mwyn i Dduw, yng nghyflawniad amser, ddangos ei drugaredd o'r newydd? Rhywbeth i'w ddwys ystyried, efallai.

"Y gwir ydy, mae Duw wedi dal pawb yn garcharorion anufudd-dod, er mwyn iddo allu dangos trugaredd atyn nhw i gyd." (Rhufeiniaid 11:32)

Ynghynt yn y bennod mae Paul, wrth drafod yr Iddewon a'r cenhedloedd, yn sôn am ganghennau'n cael eu torri i fwrdd, ond hefyd am ganghennau'n cael eu himpio i mewn. Rydym yn byw mewn dyddiau pan mae hynny yn digwydd yng Nghymru wrth i lawer o'r hen drefn gael ei thorri i fwrdd, ond canghennau newydd gael eu himpio i mewn.

Mae credu mewn rhagluniaeth yn golygu credu fod Duw yn caniatáu i drai ysbrydol ddigwydd (i raddau), ond gan ofyn y cwestiwn 'pam'? Mae'r ysgolhaig Tom Wright yn ceisio esbonio, wrth drafod Rhufeiniaid 11:

"Paul has in mind the strange divine action whereby, when someone rebels against God's will, God allows that person to continue in rebellion rather than judging them at once. God stays his hand and creates a space of time in which other things can happen; and, with God, the other things are always the spread of blessing into the wider world."

Felly, tybed ydy'r trai cyffredinol yma sy'n effeithio ar yr hen drefn yn digwydd er mwyn clirio'r ffordd a rhoi amser i fynegiant newydd o eglwys godi er mwyn dangos newyddion da Iesu Grist i haenau o'r gymdeithas Gymreig sydd wedi cau'r drws yn derfynol ar yr hen drefn? Dwi ddim yn siŵr, ond mae'n un fframwaith posib er mwyn deall yr amseroedd.

Er mod i'n cael fy amgylchynu yn aml gan drai ysbrydol, boed hynny ar achlysur trist cau Bethany neu'r broses bresennol o gau un o fy eglwys fy hun, rwyf yn dal yn obeithiol oherwydd rwy'n gallu gweld y cyfan fel rhan o waith Duw ar lwyfan hanes. Gallaf weld ac adnabod lle mae Duw ar waith yn y winllan – boed hynny'n dorri i fwrdd neu'n impio.

*Rhys Llwyd
Caernarfon*



Apêl Cymorth Cristnogol i Balestina a chyflwr Cristnogion yn Manipur – podlediad Presbyteriaid

Yn y rhifyn dwyieithog hwn o'r podlediad Presbyteriaid, byddwn yn dal i fyny ag apêl ddiweddaraf Cymorth Cristnogol am y sefyllfa arswydus sy'n datblygu ym Mhalestina a hefyd yn darganfod mwy am gyflwr Cristnogion yn nhalaith Manipur, India. Bydd y Parch Nan Powell Davies yn cloi pethau gyda myfyrdod ar heddych. I wrando arno, ewch i:

<https://rss.com/podcasts/podlediad-presbyteriaid-presbyterian-podcast/1194267/>

Oedfa Cenn@d – Dameg y Tenantiaid

Gweddi: Dad nefol, derbyn addoliad dy bobl ym mhob man heddiw, a thrwy dy Ysbryd Glân arwain ni ar lwybrau gweddi a diolch. Amen.

Emyn 4: ‘Mae’r nefoedd faith uwchben’

Darllen: Mathew 20:1–16

Gweddi’r Arglwydd

Myfyrdod (neu bregeth):

Dameg y Gweithwyr yn y winllan

Dyma’r ddameg gyfarwydd am y gweithwyr a gyflogwyd gan berchennog winllan i weithio ynddi. Mae’r perchennog yn eu cyflogi ar wahanol adegau o’r dydd. Mae’n cytuno ar dâl wrth alw’r gweithwyr cyntaf, gan addo hefyd dâl teg i’r gweddill. Ar ddiwedd y dydd, caiff yr holl weithwyr yr un tâl ganddo. Ond, o weld hynny, mae’r rhai a fu’n gweithio trwy’r dydd yn edliw iddo na fu’n deg â hwy gan iddyn nhw weithio am fwy o oriau na’r gweddill.

i. Cwyno

Cwyno a wna’r gweithwyr a alwyd yn y bore bach fod perchennog y winllan wedi gwneud cam â hwy. Daeth gweithwyr eraill i’r winllan am naw o’r gloch, ac eraill eto ganol dydd a thri a phump o’r gloch y prynhawn. Cafodd pawb yr un tâl, ond mae’r rhai a fu yno o’r cychwyn cyntaf yn credu y dylen nhw fod wedi cael mwy o arian na’r lleill.

ii. Cywiro

Wrth eu hateb, mae’r perchennog yn eu cywiro trwy ddweud na wnaeth gam â nhw. Fe gawson nhw’r hyn y cytunwyd arno ar y dechrau; ac os oedd o’n dymuno rhoi’r un tâl i weddill y gweithwyr, beth oedd hynny iddyn nhw? Dywed fod ganddo bob hawl i wneud fel y mwn â’i arian ei hun.

iii. Cymhwyso

Wedi dweud ar y dechrau fod teyrnas nefoedd yn debyg i’r hyn a gyflwynir yn y ddameg, mae Iesu’n cymhwyso’r cyfan trwy ddweud, ‘Felly bydd y rhai olaf yn flaenaf a’r rhai blaenaf yn olaf’.

Neges y ddameg ydi bod Duw’n dod â phobl i fod yn ddeiliaid ei deyrnas ar wahanol adegau. Daw rhai at Iesu Grist yn ifanc; daw eraill ato’n hwyrach yn eu bywydau; a daw rhai hyd yn oed ar yr unfed awr ar ddeg. O ganlyniad, bydd rhai wedi rhoi oes o wasanaeth i’r Arglwydd Iesu, o fewn a thrwy ei Eglwys, ond bydd eraill wedi colli neu wedi eu hamddifadu eu hunain o bob cyfle i’w wasanaethu am iddynt oedi rhag credu ynddo am flynyddoedd. Ni chaiff ambell un a ddaw i ffydd yng Nghrist gyfle hyd yn oed i ddweud gair o dystiolaeth amdano. Ac eto, rhyfeddod pethau yw bod yr un wobwr o fywyd tragwyddol i bawb sy’n credu, waeth beth fu eu hanes na phryd y daethant i edifeirwch a ffydd.

O wneud y camgymeriad o gredu y medrwn blesio Duw a chyrraedd y nefoedd trwy ein hymdrechion a’n gweithredoedd ein hunain, mae peryg i ninnau fod fel gweithwyr cyntaf y ddameg wrth i ni fynnu nad yw’n deg i eraill gael y bywyd tragwyddol a hwythau ddim ond wedi troi at Grist ar y funud olaf. Cwbl anghywir fyddai i neb ohonom edliw i bobl o’r fath eu bywydau ofer a’u gwrthwynebiad i’r ffydd am ran helaethaf eu hoes, a hwythau trwy ras wedi troi at Grist. O gredu mai gras Duw a ddaw â phob un ohonom i’r bywyd ac o dderbyn na all neb ohonom hawlio ein lle yn y deyrnas trwy ein hymdrechion ein hunain, mi fyddwn yn llawenhau wrth weld eraill yn ymateb i alwad yr Efengyl, waeth pryd y digwydd hynny.

Gweddi

Arglwydd Dduw, rho i ni ras i dderbyn mai trwy dy alwad di yn unig y daw pob un ohonom i’th deyrnas. Diolchwn am yr alwad honno a ddaw atom yn yr Efengyl a thrwyddi. Galluoga ni i wahodd eraill i’r deyrnas a gwna ni’n ddigon gostyngedig i gofleidio ein gilydd fel dy bobl. A gwared ni rhag meddwl am un eiliad fod ein gwasanaeth ni i ti’n fwy gwerthfawr nag eiddo neb arall. Amen.

Emyn 689: ‘O Arglwydd, dywed im ...’

Y Fendith

*John Pritchard,
Llanberis*

Diolchgarwch Noddfa, Llanbedr Pont Steffan

Er gwaetha’r broblem o gael pawb at ei gilydd ar yr un noson, bu’n bosib cynnal cwrd ddiolchgarwch yr ysgol Sul, wedi ei lunio gan Janet, ar 22 Hydref, a braf oedd gweld cynulliad teilwng wedi dod ynghyd. Cymerwyd rhan gan y plant, y bobl ifanc a’u rhieni a chyflawnodd phawb eu gwaith yn raenus iawn. Mewn pennill a chân, diolchwyd i Dduw am ei holl fendithion gan gofio am ein cyd-ddyn sy’n dioddef.

Croesawyd pawb yn gynnes gan Tudur ac ef hefyd gyhoeddodd yr emyn cyntaf gyda Llew, Erin a Nansi yn cyhoeddi’r lleill. Darllenwyd rhan o’r Gair gan Siân Jones ac offrymwyd gweddi gan Delyth. Y llefarwyr oedd Nia Wyn, Geinor Medi, Siân RJ, Llinos a Trystan Wyn. Mwynhawyd unawdau swynol gan Tryfan, Hari, Trystan Bryn a Lowri Elen ac adroddiad pwrpasol gan Lynwen. Pleser hefyd oedd gwrando ar y plant i gyd, yn cynnwys Siwan a Mabli, yn ymuno i gyflwyno tair cân hwyliog yn clodfori Duw. Diddorol oedd gwrando ar



sgwrs gan Llinos, Esther ac Ifan yn llawn hiwmor ond â neges bwysig hefyd.

Wrth ddiolch i bawb am eu gwaith ardderchog soniodd ein Gweinidog, y Parchedig Ddr Densil Morgan, ein bod wedi cael gwefr yn yr oedfa unwaith eto. Er gwaetha’r anawsterau soniodd fod Janet yn llwyddo i gael pawb ynghyd bob tro.

Datganodd Janet ei gwerthfawrogiad hithau i bawb am eu cydweithrediad a’u

cefnogaeth, a diolchodd i’r cyfeilyddion Ann, Alwena a Delyth am eu cyfraniad gwerthfawr, heb anghofio Alun, Roy ac Eifion am baratoi’r llwyfan. Diolchodd hefyd i bawb am eu rhoddion hael i’r Banc Bwyd.

Wrth droi tuag adre roedd pawb yn uchel eu canmoliaeth o arlwy’r oedfa ac wedi derbyn bendith wrth gydaddoli gyda’r bobl ifanc yn eu gwasanaeth o ddiolch i Dduw am ei holl fendithion.

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru